



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

CALON

TÂN

EBRILL
2024

150 MLYNEDD YN
Y DRENEWYDD

TUDALEN 14



DULL NEWYDD AR GYFER
YMATEB I ALWADAU LARYMAU
TÂN AWTOMATIG

TUDALEN 3



CYFATHREBU'R
RHANBARTHAU
TUDALEN 4

LAWNSIO BWRDD TANAU
GWYLLT CYMRU
TUDALEN 6

GWOBRAU
GWASANAETH HIR
TUDALEN 12

CYNNWYS

■ LARYMAU TÂN AWTOMATIG	3
■ CYFATHREBU'R RHANBARTHAU	4
■ HYFFORDDI SEIBERDDIOGELWCH	7
■ CWRDD A'R TIM - BLASUS	8
■ HER DIFFODDWYR TÂN CYMRU	10
■ DIGWYDDIADAU	11
■ GWOBRAU GWASANAETH HIR	12
■ DATHLU 150 MLYNEDD YN Y DRENEWYDD	14
■ CRMP 2040	16
■ CEFNOGAETH AR ALWAD ELUSEN Y DIFFODDWYR TÂN	17
■ BWRDD TANAU GWYLLT CYMRU	18
■ HYFFORDDIANT TIM CHWILIO AC ACHUB	19
■ CHWARAERON A CHYMDEITHASU	20
■ SWYDDI	22

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth ymateb brys i bron i 12,000 cilomedr sgwâr - bron i ddwy ran o dair o Gymru.

Dyma beth a'n cadwdd yn brysur y mis diwethaf:

<p>1577 </p> <p>Galwadau i'r Ganolfan Rheoli</p>	<p>971 </p> <p>Digwyddiadau a fynychwyd</p>	<p>61 </p> <p>O danau mewn adeiladau</p>	<p>449 </p> <p>O alwadau ffug</p>
<p>7 </p> <p>Anifail wedi'u Hachub</p>	<p>7 </p> <p>O ddigwyddiadau achub dwr</p>	<p>61 </p> <p>O wrthdrawiadau traffig ffyrdd</p>	<p>69 </p> <p>O achosion o roi cymorth i asiantaethau eraill</p>



LARYMAU TÂN AWTOMATIG

DULL NEWYDD WEDI'I GYNLLUNIO AR GYFER YMATEB I ALWADAU LARYMAU TÂN AWTOMATIG

Bydd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTAGC) yn gweithredu dull newydd o ymateb i alwadau Larymau Tân Awtomatig (LTA), o 1 Gorffennaf, 2024. Nod y fenter strategol hon yw sicrhau'r dryniad adnoddau gorau posibl, lleihau aflonyddwch diangen, a gwella effeithlonrwydd cyffredinol yn ein hymateb brys.

Mae Larymau Tân Awtomatig (LTA) wedi'u cynllunio i ganfod presenoldeb mwg neu fflamau a rhybuddio unigolion am beryglon tân posibl. Ond, mae ystadegau'n dangos bod mwyafrif y signalau o'r systemau hyn mewn gwirionedd yn alwadau ffug, sy'n aml yn deillio o fwg coginio, llwch neu ddiffyg cynnal a chadw.

O ganlyniad i hyn, o 1 Gorffennaf, ni fydd GTAGC yn ymateb i alwadau LTA mwyach, ac eithrio mewn amgylchiadau penodol gan gynnwys safleoedd preswyl, cartrefi nyrsio a gofal, a safleoedd sy'n destun hysbysiadau gwahardd neu orfodi diogelwch tân.

[Galwadau Diangen o Larymau Tân Awtomatig \(tancgc.gov.uk\)](https://tancgc.gov.uk)



▶
GWYLIWCH EIN FIDEO



YMWELIAD YMGYSYLLTU DIOGELWCH TÂN BUSNESAU

Yn ddiweddar, cafodd aelodau Tîm Diogelwch Tân Busnesau Rhanbarth y Gorllewin Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) eu gwahodd i Kensington Court yn Aberdaugleddau, cymdeithas dai sy'n cael ei rhedeg gan [Ateb](#), i weld gwelliannau sydd wedi'u gwneud i'r fflatiau preswyl ac ardaloedd

cymunedol, ynghyd â'u contractwyr, [Fire Immunity](#).

Mae'r gwaith yn digwydd mewn pum cam - estyniadau Larwm Tân, estyniadau Taenellwyr, Atal Tanau, Cladin a Liffiau Gwacáu. Roedd hwn yn gyfle gwyh i aelodau tîm Diogelwch Tân Busnesau GTACGC ymweld â sefydliad o'r fath. Disgrifion nhw'r addasiadau newydd fel rhai 'rhagorol' a fydd yn sicrhau bod Kensington Court yn fwy diogel i'w gymunedau a'r rhai sy'n byw yno.

Am fwy o wybodaeth, ewch i [Ymweliad GTACGC â Kensington Court Aberdaugleddau | ateb \(atebgroup.co.uk\)](#)



HYFFORDDI ACHUB O UCHDER GAN ORSAF DÂN ABERYSTWYTH

Cynhaliodd y criw yng Ngorsaf Dân Aberystwyth ymarfer hyfforddi yn Hen Goleg Aberystwyth yn ddiweddar, ddydd Mawrth, Ebrill 16eg.

Bu'r ymarfer, a chynhaliwyd mewn partneriaeth â'r cwmni adeiladu Andrew Scott Ltd., yn gyfle gwyh i aelodau'r criw gyflawni senarios gweithredol realistig o achub o uchder. Roedd hefyd yn galluogi'r criw i

ddefnyddio eu cyfarpar achub rhaff lefel 2 a'r ysgol trofwrdd.

Dywedodd y Rheolwr Gwylfa Liam Hinton-Jones:

"Mae'n hanfodol ein bod yn cynnal yr ymarferion hyn fel bod criwiau'n barod i ymateb i argyfyngau a deall y peryglon sy'n gysylltiedig â safleoedd adeiladu.

Hoffwn ddiolch i Andrew Scott Ltd. am eu cymorth ac rydym yn gobeithio trefnu sesiynau eraill yn y dyfodol agos."



CADETIAID TÂN BLAENDULAIS

Y mis hwn cafodd Cadetiaid Tân Blaendulais y dasg o lenwi argae o uchder fel rhan o'u rhaglen 2 flynedd.

Gyda gwybodaeth gyfyngedig am yr hyn y gallent ei ddefnyddio neu sut i gyflawni tasgau penodol, buont yn gweithio'n dda fel tîm i ddefnyddio offer o'r pwmp i lenwi'r argae'n effeithiol.

Cynhaliwyd yr ymarfer hwn fel rhan o'u rhaglen [Cadetiaid Tân](#) 2 flynedd o hyd. Mae'n asesu eu sgiliau a'u gwybodaeth trwy ddefnyddio clymau a rhaffau yn ogystal â gweithio gyda'i gilydd fel tîm i ddatrys problem er mwyn cyflenwi dŵr yn effeithiol.

Mae'r Cadetiaid Tân yn elwa'n fawr ar weithgareddau fel hyn gan eu bod yn eu helpu i fagu hyder gyda'u sgiliau cyfathrebu, dysgu gwrando ar eraill a chefnogi ei gilydd wrth iddynt weithio gyda'i gilydd fel tîm.



Dywedodd Karen Mayze, y Cydgysylltydd Cadetiaid Tân:

"Ar ddiwedd y rhaglen ddwy flynedd mae'r cadetiaid yn ennill Tystysgrif Cyflawniad Gwobr Cadetiaid Tân. Mae'r bobl ifanc hefyd yn teimlo ymdeimlad o berthyn yn eu cymuned ac yn dod yn fodolau rôl gyda'u cyfoedion."

Da iawn bawb!

Mae'r cyfnod recriwtio ar gyfer Cadetiaid Tân bellach ar agor

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn ymuno â'n Rhaglen Cadetiaid Tân, mae'r lleoliadau canlynol bellach yn recriwtio - Y Drenewydd, Abercrâf, Blaendulais, Dyffryn Aman a Gorseinon.

Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan: [Cadetiaid Tân- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru \(mawwfire.gov.uk\)](#)



SEIBERDDIOGELWCH

MAE'R WYBODAETH DDIWEDDARAF GAN Y GWASANAETH AM SEIBERDDIOGELWCH!

Wrth i ni lywio'r dirwedd ddigidol sy'n esblygu'n barhaus, mae'n hanfodol sicrhau bod gweithwyr y Gwasanaeth yn hyddysg mewn arferion seiberddiogelwch.

Mewn partneriaeth â [Tarian](#), yr Uned Seiberdroseddu Ranbarthol sy'n cynnwys heddluoedd [Dyfed-Powys](#), [Gwent](#) a [De Cymru](#), yn ddiweddar trefnodd Adran TGCh y Gwasanaeth brofiad hwyliog a throchol i staff, a oedd yn cyfuno gwefr ystafell ddianc gydag adeiladu gwybodaeth Seiberddiogelwch hanfodol.

Gweithiodd cyfranogwyr gyda'i gilydd fel tîm seiberdroseddu, gan ddod o hyd i gliwiau, datrys posau, a chracio codau gyda phwyslais ar Seiberddiogelwch!

Nod y sesiwn oedd codi ymwybyddiaeth staff o seiberddiogelwch a darparu ffyrdd ymarferol i unigolion wella eu hylendid digidol, gan gynnwys cyngor ar ddefnyddio cyfrineiriau cryf, bod yn

wyliadwrus o e-byst a dolenni gwe amheus, camddefnyddio deallusrwydd artifisial, a chadw i fyny â diweddariadau digidol.

Gofynnwn ni i'r Swyddog Hyfforddiant TGCh, Lynne Morgan, pam ei bod hi'n bwysig i'r mathau hyn o sesiynau gael eu darparu i staff y Gwasanaeth, a dywedodd:

"Ymwybyddiaeth seiber yw ein hamddiffyniad rheng flaen yn erbyn bygythiadau digidol. Mae sicrhau parhad, cynhyrchiant a chywirdeb y data digidol rydym yn ei ddefnyddio yn hollbwysig mewn byd sy'n fwyfwy rhyng-gysylltiedig."

Bydd yr ymgyrch hyfforddi Seiberddiogelwch TGCh yn rhedeg yn barhaus drwy gydol y flwyddyn hon, a'i nod yw darparu cyfleoedd hyfforddi deniadol a pherthnasol i staff gael mynediad at wybodaeth sy'n cael ei hwyluso'n wahanol.

Trwy feithrin diwylliant o ddiogelwch lle mae pob gweithiwr yn chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu data, gyda'n gilydd gallwn sicrhau bod asedau ariannol, enw da a gweithrediadau personol a sefydliadol yn cael eu diogelu."

Diolch yn fawr iawn i Lynne am drefnu'r sesiynau hyn ac i'r holl staff a gymerodd ran am ddeall pwysigrwydd y sesiynau hyn a choleddu'r profiad.



Cwrdd a'r Tim

BLASUS.



Sarah Hopkins
Cynorthwydd Arlwy

Helo, Sarah ydw i, ac rwyf wedi gweithio yn Blasus ers mis Mawrth 2022. Rwy'n cynorthwyo'r Prif Gogydd, lanto, bob dydd wrth baratoi prydau bwyd i'r staff ym Mhencadlys y Gwasanaeth yng Nghaerfyrddin. Es i mewn i'r diwydiant arlwy ar ddamwain yn 2018 wrth weithio mewn siop gelato a bwyty Caribiaidd yng Nghaerfyrddin.

Mae gen i ferch 19 oed o'r enw Shannon sy'n fyd i mi. Rydw i wedi bod gyda fy mhartner ers bron i ddwy flynedd, sy'n un o'r prif gogyddion roeddwn i'n gweithio gyda'n flaenorol - ryfeddaf erioed, doedd yr un ohonom ni'n hoffi ein gilydd wrth weithio gyda'n gilydd!

Mae gen i gi saith mlwydd oed o'r enw Peanut sy'n gymysgedd o bwdl a shiwawa a chath 15 mlwydd oed o'r enw Blackie. Mae teulu yn bopeth imi ac rwy'n ddiolchgar dros ben mae fy un i yn glos iawn.



Gemma Rasmussen
Cynorthwydd Arlwy

Helo, Gemma ydw i, ac rwyf wedi gweithio fel Cynorthwydd Arlwy yn Blasus ers bron i flwyddyn. Rwy'n mwynhau gweithio i'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn fawr iawn.

Rwyf wedi bod yn briod i'm gwr ers 16 mlynedd, mae e hefyd yn gweithio i'r Gwasanaeth fel Diffoddwr Tân Ar Alwad yng Ngorsaf Dân Caerfyrddin. Pan nad ydw i'n brysur gyda fy nhri o blant, rwy'n mwynhau mynd i'r gampfa i gymryd rhan mewn hyfforddiant cardio a chryfder. Rwyf hefyd yn mwynhau pobi ac mae gen i gymhwyster mewn addurno cacennau, sy'n aml yn dod yn ddefnyddiol ar gyfer penblwyddi'r teulu!

Mae gen i ddau sbaengi Siarl, sy'n dwli ar redeg ar y traeth.



Prif Gogydd
Head Cook

Yn arwain Sarah a Gemma, a sicrhau bod y staff ym Mhencadlys y Gwasanaeth, Gorsaf Dân Caerfyrddin a phawb sy'n mynychu cyfarfodydd a hyfforddiant yno yw'r Prif Gogydd, lanto.

Mae lanto wedi gweithio yn y Gwasanaeth Tân ac Achub ers dros 22 mlynedd, a dathlodd 20 mlynedd o wasanaeth yn 2022.



HER DIFFODDWYR TÂN CYMRU

HER DIFFODDWYR TÂN CYMRU 2024

Ddydd Sadwrn, 1 Mehefin 2024, bydd diffoddwyr tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cystadlu yn [Her Diffoddwyr Tân Cymru](#), sef ras ranbarthol [Her Diffoddwyr Tân Prydain](#).

Cyfes o brofion corfforol a meddyliol anodd yw [Her Diffoddwyr Tân Cymru](#), a gynhelir mewn cit tân llawn ac sydd wedi'u cynllunio i arddangos sgiliau a chryfder diffoddwyr tân. Nid diwrnod i ddiffoddwyr tân brofi eu cryfder, eu dygnwch a'u sgiliau yn unig yw'r digwyddiad - mae hefyd yn gyfle i bawb ddod at ei gilydd fel cymuned, i gefnogi a dathlu eu cyflawniad ei gilydd ac i dynnu sylw at eu proffesiynoldeb a'u hymroddiad parhaus i gadw eu cymunedau'n ddiogel.

Yn ogystal â darparu diwrnod o adloniant i ddiffoddwyr tân a'u gwylwyr, bydd Her Diffoddwyr Tân Cymru hefyd yn codi arian pwysig ar gyfer Elusen y Diffoddwyr Tân, sy'n cynnig cymorth arbenigol a gydol oes i aelodau o gymuned y gwasanaeth tân ledled y DU.

Does dim **rhagor** o le i gystadleuwyr ar hyn o bryd ar gyfer Her Diffoddwyr Tân Cymru 2024, ond anogir gwylwyr i fynychu'r digwyddiad a fydd yn cael ei gynnal yn Sgwâr Dylan Thomas, Abertawe. Bydd y ras gyntaf yn dechrau am 9am.



Rydym yn galw ar wirfoddolwyr cofrestredig y Gwasanaeth i helpu ar y diwrnod.

Bydd angen digon o help ar y diwrnod. Bydd angen i chi:

- Allu ailosod offer ar y cwrs
- Cynorthwyo gydag offer anadlu
- Cynorthwyo gyda lles cystadleuwyr

Felly os oes gennych ddi-ddordeb mewn bod yn wirfoddolwr cofrestredig, cysylltwch â Roshnara Ali yn r.ali@mawwfire.gov.uk.

Bydd unrhyw gymorth y gallwch ei ddarparu ar gyfer y diwrnod yn cael ei werthfawrogi'n fawr, felly cysylltwch â ni!

DIGWYDDIADAU CYFFROUS Y DYFODOL!



18fed Mai - Pride Abertawe 2024

20fed Mai - Y Gelli Gandryll Noson Recriwtio

31ain Mai - Diwrnod Agored Pontarddulais

1af Mehefin - Her Diffoddwyr Tân Cymru

19eg Mehefin - Y Drenewydd Diwrnod Profiad

24ain Mehefin - Noson Recriwtio Y Gelli Gandryll

11eg Gorffennaf - Hwlfordd Diwrnod Profiad

31ain Gorffennaf - Diwrnod Agored Doc Penfro

Mae yna groeso cynnes i bawb yn ein digwyddiadau cymunedol, gan gynnig cyfle gwych i chi gysylltu â'ch diffoddwyr tân lleol a chefnogi'r digwyddiadau a arweinir gan y gorsafodded.

Nodwch y dyddiadau yn eich calendrau a chadwch olwg ar ein tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol i gael y newyddion diweddaraf a manylion am y digwyddiadau.

Peidiwch da chi â cholli allan ar y cyffro - dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol a gwahoddwch eich ffrindiau a'ch teulu.

Dilynwch ni ar



60 MLYNEDD O WASANAETH CYFUN YNG NGORSAF DÂN LLANBEDR PONT STEFFAN

Ddydd Mawrth, Ebrill 2ail, cyflwynwyd tystysgrifau i dri Diffoddwr Tân o Orsaf Dân Llanbedr Pont Steffan am 20 mlynedd o ymroddiad a gwasanaeth i'r gymuned leol.

Gyda chyfanswm cyfunol o 60 mlynedd o wasanaeth cafodd y Rheolwr Gwylfa Aled Morgan a'r Diffoddwyr Tân Huw Rowcliffe a Glyn Jones wobrau gwasanaeth hir gan Gadlywydd yr Orsaf Danny Bartley.

Wrth gyflwyno'r gwobrau yn ystod noson ymarfer yr Orsaf, dywedodd Cadlywydd yr Orsaf Bartley:

"Hoffwn longyfarch Aled, Huw a Glyn ar eu cyflawniadau rhyfeddol, mae heno yn cynrychioli carreg filltir yn eu gyrfaoedd gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Hoffwn ddiolch iddyn nhw i gyd am eu hymrwymiad a'u hymroddiad i ddiogelwch eu cymuned leol!"



30 MLYNEDD O WASANAETH CYFUN YNG NGORSAF DÂN TREGARON

Mae dau Ddiffoddwr Tân yng Ngorsaf Dân Tregaron wedi derbyn gwobrau gwasanaeth hir yn ddiweddar am eu hymroddiad a'u gwasanaeth parhaus i'w cymuned leol, gyda chyfanswm cyfunol o 30 mlynedd o wasanaeth.

Mae'r Rheolwr Criw, Meilyr Hughes, wedi nodi 20 mlynedd o wasanaeth, tra bod y Diffoddwr Tân Gareth Jones yn nodi 10 mlynedd.

Wrth gyflwyno'r ddau gyda'u tystysgrifau gwasanaeth hir, dywedodd Cadlywydd yr Orsaf, Danny Bartley:

"Hoffwn ddiolch yn ddiffuant iddynt am eu cyfraniad a'u gwasanaeth i'r gymuned leol. Mae hyn yn cynrychioli ymrwymiad go iawn i ddiogelwch cymuned Tregaron ac rydym yn hynod o ddiolchgar iddynt am eu gwasanaeth parhaus."



Y Rheolwr Criw Nigel Bowden yn Dathlu 25 Mlynedd o Wasanaeth

Cafodd y Rheolwr Criw Nigel Bowden, o Orsaf Dân Aberystwyth, ei gydnabod yn ddiweddar am 25 mlynedd o wasanaeth fel Diffoddwr Tân Ar Alwad.

Yn ystod ei chwarter canrif o wasanaeth, mae'r Rheolwr Criw Bowden wedi dangos ymroddiad a dewrder diwyro wrth amddiffyn cymunedau Aberystwyth.



Cafodd y Rheolwr Gwylfa Tom Boyle, o Orsaf Dân Cei Newydd, ei gydnabod yn ddiweddar am 20 mlynedd o wasanaeth ymroddedig.

Wrth gyflwyno Tom a'i dystysgrif gwasanaeth hir, dywedodd y Cadlywydd Gorsaf Danny Bartley:

"Mae heddiw yn nodi ymrwymiad anhygoel gan y RG Tom Boyle i nid yn unig Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, ond hefyd i gymuned Cei Newydd. Hoffwn longyfarch Tom ar ei gyflawniad rhyfeddol a diolch iddo am ei wasanaeth parhaus."



DATHLU 150 MLYNEDD O'R GWASANAETH TÂN AC ACHUB YN Y DRENEWYDD

Yn ddiweddar, nododd y criw yng Ngorsaf Dân y Drenewydd garreg filltir ryfeddol yn eu hanes, trwy ddathlu 150 mlynedd o'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn y dref.

Ddydd Sadwrn, 6 Ebrill, cafodd digwyddiad dathlu arbennig ei gynnal yn yr Orsaf Dân a ddaeth ag aelodau presennol a chyn-aelodau staff y Gwasanaeth ynghyd, yn ogystal â gwsteion gwadd.

Agorodd Prif Swyddog Tân ac Achub Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, Roger Thomas, y digwyddiad a siarodd am hanes y Gwasanaeth Tân ac Achub yn y Drenewydd a sut y cafodd ei greu.

Ym mis Ebrill 1847, cafodd Brigâd Dân Wirfoddol y Drenewydd ei chreu, ac mae sawl newid wedi bod i'r strwythur ers hynny. Cafodd Cyd-wasanaeth Tân Sir Ddinbych a Sir Drefaldwyn ei ffurfio yn 1948 ar ôl i'r Gwasanaeth Tân Cenedlaethol drosglwyddo rheolaeth tân i wasanaethau sirol a bwrdeistrefi sirol

rhanbarthol. Ym 1974, aeth pob un o'r Cynghorau Sir a oedd newydd gael eu sefydlu ati i gynnal eu Gwasanaethau Tân ac Achub eu hunain ac ym 1996 cafodd Brigadau Tân Dyfed, Powys a Gorllewin Morgannwg eu huno gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 i greu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae adegau a digwyddiadau o bwys yn hanes Gwasanaeth Tân ac Achub y Drenewydd yn cynnwys tân trychinebus ym Melin y Cambrian ym 1912, dyfodiad ei injan dân stêm gyntaf ym 1913, y seiren oedd yn rhybuddio diffoddwyr tân o ddigwyddiad yn cael ei disodli gan declynnau rhybuddio poced ym 1971 a thân mawr yn Nhanerdy'r Drenewydd ym 1981.

Nid oes amheuaeth bod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn y Drenewydd wedi gweld newid aruthrol drwy gydol ei hanes, o geirt yn cael eu tynnu gan geffylau i'r peiriannau tân a'r offer achub bywyd diweddaraf oll. Drwy gydol ei hanes, mae'r holl ddiffoddwyr tân yng Ngorsaf Dân y Drenewydd wedi dangos ymroddiad, dewrder a gwasanaeth i'r gymuned leol, ac yn ddi-os maent wedi achub bywydau di-ri.

Wrth ddathlu 150 mlynedd, rydym nid yn unig yn cofio a dathlu'r gorffennol, ond hefyd yn cadarnhau unwaith eto ymrwymiad y Gwasanaeth Tân ac Achub i gymuned y Drenewydd i'r dyfodol.



GORSAF DÂN Y DRENEWYDD YN CAEL EI CHYDNABOD WRTH DDATHLU GWOBRAU'R DRENEWYDD

Ddydd Mercher, 10 Ebrill cynhaliodd Cyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaearn Wobrau Dathlu blynyddol y Drenewydd yng nghanolfan yr Hafren.

Cafodd criw Gorsaf Dân y Drenewydd eu gwahodd i'r digwyddiad nid yn unig i ddathlu 150 mlynedd ers sefydlu'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn y Drenewydd, ond hefyd i gydnabod y criw am eu hymroddiad parhaus i amddiffyn y gymuned leol.

Yn bresennol yn y digwyddiad ar ran yr Orsaf Dân roedd y Rheolwr Grŵp a Phennaeth Rhanbarth y Gogledd Teri-Ann Parry, y Rheolwr Gorsaf Andrew Richards, y Rheolwr Gwylfa Mike Wareing, y Rheolwr Criw Ewan Jones, y diffoddwr tân Ian Howells, y diffoddwr tân Sue Richards a'r cyn Reolwr Gwylfa Dai Pryce.



CYNLLUN RHEOLI RISG CYMUNEDOL

Fe wnaethoch chi ddweud eich dweud, a ninnau'n gwranddo...

Mae ein Cynllun Rheoli Risg Cymunedol bellach ar gael, ewch i Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040 (tancgc.gov.uk) i weld yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud o hyn tan 2040.



AR ALWAD
Recriwtio Diffoddwyr Tân
ON CALL
Firefighter Recruitment



GWYLIWCH FIDEO IWAN



Iwan Ward
Ar Alwad, Crymych
Rhanbarth y Gorllewin

RYDYM AR ALWAD AR EICH CYFER CHI

Archebwch eich cylchgrawn
ar alwad am ddim heddiw.

www.firefighterscharity.org.uk/oncallmag
Neu ffoniwch ni am gymorth iechyd a lles ar **0800 389 8820**



LANSIAD BWRDD TANAU GWYLLT CYMRU

Mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru wedi lansio ei ymgyrch Tanau Gwyllt Cymru newydd #DoethiDanauGwyllt

Mae'r Bwrdd yn ddull aml-asiantaeth o ddeall yn well y risg y mae tanau gwyllt yn ei achosi i'r amgylchedd a chymunedau Cymru, a rheoli'r risg.

Caiff ei gyflwyno trwy Siarter Tanau Gwyllt Cymru, a'i nod yw adeiladu ar y sylfaen o wybodaeth a phrofiad a enillwyd dros y degawd diwethaf, a hynny



Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru
Wales Wildfire Board
Doeth i Danau Gwyllt Wildfire Wise

gan ystyried perygl hollbresennol newid hinsawdd yn ogystal â chydabod gwerth annog cymunedau ac unigolion i weithio gyda'i gilydd i ddiogelu'r ardaloedd lle maent yn byw ac yn gweithio ac ardaloedd maent yn ymweld â nhw.

Nod ein hymgyrch #DoethiDanauGwyllt yw addysgu unigolion am yr arferion gorau o ran osgoi ac atal tanau gwyllt yng Nghymru. Am fwy o wybodaeth am #DoethiDanauGwyllt, ewch i'n gwefan.

#DOETHIDANAUGWYLLT



YMARFER TIM CHWILIO AC ACHUB



YMARFER HYFFORDDI TÎM CHWILIO AC ACHUB TREFOL CYMRU

Yn ddiweddar, mynychodd Tîm Chwilio ac Achub Trefol (ChAT) Cymru ymarfer hyfforddi yng Nghanolfan Hyfforddi Waddington, Swydd Lincoln.

Mae Tîm Chwilio ac Achub Trefol Cymru (ChAT Cymru) yn cynnwys aelodau o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC)

a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) - sy'n derbyn hyfforddiant o arbenigedd uchel mewn amgylcheddau Chwilio ac Achub Trefol.

Dywedodd Gareth Lewis, Rheolwr Tîm ChAT Cymru:

"Roedd y lleoliad hwn yn dyst i'n paroddrwydd a'n harbenigedd. Fe wnaeth ein tîm ragori mewn sefyllfa realistig, gan ddangos ein gallu i ymateb yn gyflym i unrhyw ddigwyddiad yng Nghymru a thu hwnt er mwyn cefnogi ein partneriaid ledled y DU."

ERTHYGL LLAWN

CHWARAEON A CHYMDEITHASU

DEWCH YN AELOD O GLWB CHWARAEON A CHYMDEITHASOL GTACGC HEDDIW!

Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) ei Glwb Chwaraeon a Chymdeithasol ei hun. Os ydych chi'n aelod presennol o'r Gwasanaeth neu wedi ymddeol ohono, mae croeso i chi ymuno.

Mae'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol yn llwyfan ar gyfer cadw'n heini, cymdeithasu a chael hwyl. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys amrywiaeth o adrannau y gallwch ymuno â nhw, gan gynnwys:



ROWNDERI
ROUNDERS



CLWB CRICED
CRICKET CLUB



CLWB BOWLIO
BOWLS CLUB



CLWB BEICIO
CYCLING CLUB



CLWB PYSGOTA PLY
FLY FISHING CLUB



CLWB PÊL DROED
FOOTBALL CLUB



CLWB GOLFF
GOLF CLUB



FFOCWS
CHWARAEON
MENYWOD
FEMALE
SPORTS FOCUS



CLWB RYGBI
RUGBY CLUB



CLWB TRIATHLON
TRIATHLON CLUB



CLWB TRAWSSFFIT
CROSSFIT CLUB

Dyma'r logos swyddogol ar gyfer clybiau Chwaraeon a Chymdeithasol - am unrhyw ymholiadau logo cysylltwch â'n tîm graffeg


Rydym yn hollol gefnogol o ddechrau adrannau newydd, felly os nad ydych yn gweld camp neu weithgaredd cymdeithasol yr ydych yn ei fwynhau, beth am gysylltu â ni, a dechrau eich adran eich hun?

Dewch yn rhan o'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol am ddim ond £2 y mis a chynorthwyo i gynnal ein holl adrannau.

Am fwy o wybodaeth am sut i ymuno, e-bostiwch Steven Philpot - s.philpott@mawwfire.gov.uk

ADRAN CHWARAEON A CHYMDEITHASU

NODWEDD MISOL - FFOCWS AR FENWOD



Mae rhifyn Calon Tân y mis hwn yn cynnwys cipolwg ar Adran Ffocws ar Fenywod (Female Focus) clybiau Chwaraeon a Chymdeithasol GTACGC.

Diben yr Adran Ffocws ar Fenywod yw helpu i hyrwyddo menywod mewn chwaraeon! Y nod yw helpu i greu rhwydwaith ar draws y Gwasanaeth sy'n annog menywod i ddod at ei gilydd a chymryd rhan mewn camp maen nhw'n ei mwynhau neu y bydden nhw'n hoffi rhoi cynnig arni gyda phobl o'r un anian.

Rydym wedi gweld unigolion yn cael eu dewis ar gyfer **tîm rygbi menywod Gwasanaethau Tân ac Achub Prydain Fawr** yn ogystal â chymryd rhan mewn Traws Gwlad. Mae Jay Crouch, Arweinydd Diogelu GTACGC, wedi datblygu adran rownderi dros y flwyddyn ddiwethaf, sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn.

Mae arolwg Ffocws ar Fenywod wedi'i gynnal yn ddiweddar i weld pa gampau mae gan fenywod yn y Gwasanaeth ddiddordeb ynddynt, a chawsom 37 o ymatebion.

Roedd pêl rwyd yn enillydd clir, gyda Cross Fit a rhedeg yn boblogaidd hefyd! Os oes diddordeb gennych mewn dechrau tîm newydd, cysylltwch â ni!

Mae'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol yn blatfform gwych ac mae'r adran Ffocws ar Fenywod yn gwbl gefnogol i ddechrau adrannau newydd, felly os nad ydych chi'n gweld yr adran rydych chi'n ei mwynhau, cysylltwch â ni!

Cysylltwch â Steve Philpott s.philpott@mawwfire.gov.uk am fwy o wybodaeth.

Peidiwch ag anghofio bod y digwyddiad cyntaf Datblygu a Hyfforddi Menywod yn y Gwasanaeth Tân dros Gymru Gyfan yn cael ei gynnal ar 18 ac 19 Hydref 2024. Os oes diddordeb gennych, rhowch eich enw i Hannah Lodder-Rodda ar - h.lodder@mawwfire.gov.uk

Sport of Interest	Yes
Rygbi	7
Rygbi Cyffwrdd	9
Pêl droed	9
Rownderi	15
Rhedeg	11
Crossfit	13
Pêl rwyd	19
Bocsio	5
Golff	1
Pysgota	3
Bowlio	1
Triathlon	4
Seiclo	9
Criced	5
Arall	5

GWEITHIO GYDA NI!

Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu meddwl am Ddiffoddwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy'n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.

Y tu ôl i'r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi'u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.

GWELD SWYDDI GWAG CYFREDOL >

BUDDION

- Cyfraddau cyflog cystadleuol
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Gwyliau Blynyddol hael - 26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.
- Cynllun Hyblyg
- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol
- Parcio am ddim ar y safle
- Beico i'r Gwaith
- Cynllun disgownt i staff
- Iechyd a Lles

A LLAWER MWY!



AR ALWAD
Recriwtio Diffoddwyr Tân
ON CALL
Firefighter Recruitment

DIFFODDWYR TÂN AR ALWAD - MAE ANGEN CHI ARNOM!



Ydych chi'n byw o fewn 5-10 munud i'ch Gorsaf Dân leol?
Ar hyn o bryd mae gennym ni swyddi gwag ar gyfer diffoddwyr tân ar alwad - ewch draw i'n gwefan i ddarganfod mwy!





Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

#MwyNaDimOndTanau
#MoreThanJustFires



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

Ebrill 2024

Dathlu 150 Mlynedd o Wasanaeth
i'r Drenewydd a'i chymunedau cyfagos

April 2024

Celebrating 150 Years of Service
to Newtown and its surrounding communities

www.tancgc.gov.uk

CYLCHGRAWN CALON TÂN - EBRILL 2024